**Nifer y staff clercio ac ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

13 Medi 2019

**Cais am wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 16 Awst, pan wnaethoch ofyn:

*Helo, hoffwn gael gwybod beth yw nifer y staff sy'n gweithio yn y Senedd--yn benodol, nifer y clercod (h.y., y Clerc, y rhai sy'n gwasanaethu pwyllgorau'r cyfarfod llawn, y Comisiwn ac ati) a nifer staff gwasanaeth ymchwil y Senedd.*

*A yw'n bosibl cael dadansoddiad o nifer y clercod a staff ymchwil y Senedd yn 1) 2000, 2) 2010, 3) 2015, a 4) ar hyn o bryd (2018 neu 2019)?*

*Gwn fod manylion yn adroddiadau a chyfrifon blynyddol y Comisiwn, ond nid oes dadansoddiad o'r mathau o staff.*

Gweler yr ymateb isod, wedi'i rannu'n adrannau wedi'u rhifo.

1. *Dadansoddiad o nifer y clercod a staff ymchwil y Senedd yn 2000*

Nid ydym yn cadw gwybodaeth gywir ar gyfer y cyfnod hwn.

Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel un corff corfforaethol ym 1999. Ar ôl i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, rhannwyd y corff corfforaethol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru bellach) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn 2000, roedd staff y pwyllgor yn gyflogeion i'r corff corfforaethol ehangach. Roedd y Gwasanaeth Llyfrgell, Gwybodaeth a Briffio, fel y'i gelwid yn 2000, yn rhan o'r llyfrgell bresennol, ac fe'u rheolwyd ochr yn ochr â'i gilydd. Mae hyn bellach yn adeilad swyddfa Llywodraeth Cymru CP1, a leolir ym Mharc Cathays.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Felly, nid oes gennym wybodaeth am nifer y clercod na'r staff ymchwil ar gyfer y flwyddyn 2000.

2. *Dadansoddiad o nifer y clercod a staff ymchwil y Senedd yn 2010*

Oherwydd newid mewn systemau Adnoddau Dynol a throsglwyddo data crai, nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth gywir ar gyfer y cyfnod hwn.

Fodd bynnag, yn ôl y cofnodion a gadwyd, roedd 35 aelod o staff yn gweithio yn y Gwasanaeth Ymchwil a 54 aelod o staff yn gweithio ar draws Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth yn ystod 2009/10.

3. *Dadansoddiad o nifer y clercod a staff ymchwil y Senedd yn 2015*

Gweler y ffigurau isod:

| Swydd | Nifer y staff |
|---|---|
| Clercod | 12 |
| Ail Glerc | 11 |
| Dirprwy Glerc | 17 |
| Clerc y Cyfarfod Llawn | 2 |
| Swyddi eraill y Pwyllgor | 14 |
| Gweinyddiaeth Pwyllgor | 7 |
| Cyfanswm | 63 |

| Swydd | Nifer y staff |
|---|---|
| Uwch Ymchwilydd | 16 |
| Ymchwil Uwch | 5 |
| Ymchwilwyr Eraill | 10 |
| Gweinyddiaeth Ymchwil | 4 |
| Y Llyfrgell | 6 |
| Cyfanswm | 41 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cyffredinol* | 104 |

*Mae'r cyfanswm cyffredinol yn cynnwys staff sy'n gyfrifol am y Cyfarfod Llawn a'r Swyddfa Gyflwyno, nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol i gefnogi pwyllgorau.

4. *Dadansoddiad o nifer y clercod a staff ymchwil y Senedd yn 2019*

Gweler isod:

| Swydd | Nifer y staff |
|---|---|
| Clercod | 15 |
| Ail Glerc | 13 |
| Dirprwy Glerc | 17 |
| Clerc y Cyfarfod Llawn | 1 |
| Swyddi eraill y Pwyllgor | 16 |

| Swydd | Nifer y staff |
|---|---|
| Uwch Ymchwilydd | 17 |
| Ymchwil Uwch | 7 |
| Ymchwilwyr Eraill | 12 |
| Gweinyddiaeth Ymchwil | 2 |
| Y Llyfrgell | 7 |

| | |
|---|---|
| Gweinyddiaeth Pwyllgor | 13 |
| Cyfanswm | 75 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm | 45 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cyffredinol* | 120 |

*Mae'r cyfanswm cyffredinol yn cynnwys staff sy'n gyfrifol am y Cyfarfod Llawn a'r Swyddfa Gyflwyno, nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol i gefnogi pwyllgorau.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost a ganlyn: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'r cyfeiriad post a ganlyn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad post a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF